**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KW/03229/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

Annwyl Janet Finch-Saunders AS,

30 Mehefin 2020

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Mehefin parthed deiseb P-05-985 i ddarparu gofal plant sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth a oedd ar gael cyn pandemig COVID-19.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i rannu fy marn ar y mater hwn â'r Pwyllgor Deisebau. Deallaf fod y sefyllfa yn peri pryder i lawer o deuluoedd ledled Cymru ac y bydd angen i'r trefniadau ar gyfer cam nesaf y broses o weithredu ysgolion o 29 Mehefin sicrhau cydbwysedd rhwng y canllawiau cenedlaethol ac anghenion ac amgylchiadau lleol cymunedau.

Wrth ystyried y ddeiseb, mae nifer o faterion y byddaf yn awyddus i'w hystyried yn unol â'm portffolio ac mae rhai materion sy'n mynd y tu hwnt i'm cylch gwaith ond y bydd angen sylw arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, rôl fynych y teulu ehangach, gan gynnwys neiniau a theidiau, a'r ffordd y mae’r cyfyngiadau cymdeithasol sydd ar waith yn effeithio ar y rhwydwaith cymorth y mae llawer o deuluoedd wedi dod i ddibynnu arno.

Rhaid i ni gydnabod bod Cymru yn destun cyfyngiadau symud o hyd. Er gwaethaf yr ymateb eithriadol gan boblogaeth Cymru, gan deuluoedd ac unigolion, gan bob un o'n gwasanaethau a'n gweithwyr hanfodol, a'r cynnydd aruthrol a wnaed gennym, mae'r coronafeirws yn fygythiad gwirioneddol o hyd, a bydd yn parhau i effeithio ar ein bywydau am gyfnod estynedig.

Wrth ystyried y ddeiseb, rhaid i ni barhau'n ymwybodol o hynny. Wrth i ni barhau i fynd i'r afael â'r coronafeirws a chynllunio ar gyfer ail frig posibl, mae'r Prif Weinidog wrthi ar yr un pryd yn ymdrechu'n ofalus ac yn y ffordd orau bosibl i fanteisio ar yr hyblygrwydd sydd ar gael i wneud mân addasiadau er mwyn llacio'r cyfyngiadau cymdeithasol sydd ar waith. Credaf fod pob un ohonom yn croesawu'r mesurau llacio hynny, gan gynnwys y mesur diweddaraf i lacio'r cyfyngiadau ar fanwerthu nad yw'n hanfodol, addoldai a gweithgareddau awyr agored. Ond mae'n amlwg iawn bod y sefyllfa drawsnewidiol hon, nad yw’n mynd y naill ffordd na’r llall, yn cymhlethu'r materion sy'n ein hwynebu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n siŵr bod awduron y ddeiseb hon yn cydnabod y pwynt hwn a byddwn yn falch cael cydnabyddiaeth ac eglurder o ran p'un a yw'r ddeiseb yn gofyn i ni ddychwelyd at drefniadau gofal plant arferol nawr, o ystyried ein bod yn destun cyfyngiadau symud o hyd a'n bod yn parhau i ymdrin ag amgylchiadau digynsail, neu'n ddiweddarach pan gaiff y cyfyngiadau cymdeithasol eu diddymu ac y gall ysgolion a lleoliadau ddychwelyd at drefniadau mwy normal.

Rwy'n cytuno'n llwyr â'r ganmoliaeth yn y ddeiseb at ymdrech, ymroddiad ac aberth eithriadol ein gweithwyr hanfodol yn ystod pandemig y coronafeirws. Mae ein gweithwyr yn y GIG a'n gweithwyr gofal cymdeithasol, ein cadwyni cyflenwi a'n gwasanaethau hanfodol, ein gwasanaethau brys, a'n hathrawon a staff ein hysgolion, wedi chwarae rhan allweddol fel gweithwyr hanfodol wrth leihau effaith y pandemig, diogelu yn erbyn marwolaethau ac osgoi caledi gwaeth.

Ers cau sefydliadau addysg statudol ar 20 Mawrth, mae ein hysgolion wedi parhau i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc ac rwy'n falch nodi bod mwy na 700 o hybiau wedi parhau ar agor er mwyn darparu gofal plant i'n dysgwyr mwy agored i niwed a phlant ein gweithwyr hanfodol yr oedd angen y ddarpariaeth honno arnynt. Wrth ymgymryd â'r rôl wahanol hon a chyfrannu at yr ymdrech genedlaethol i fynd i'r afael â'r feirws, mae ein staff addysgu a staff ein hysgolion wedi gallu helpu i sicrhau y gall miloedd o weithwyr hanfodol ymgymryd â'u rolau allweddol, cefnogi'r wlad ar adeg o angen cenedlaethol ac, yn y pen draw, achub bywydau. Fel gwlad, mae ein dyled yn fawr i bob un o'n gweithwyr hanfodol.

**Cam nesaf y broses o weithredu ysgolion o 29 Mehefin**

Rydym yn ymwybodol y bydd effaith y coronafeirws i'w theimlo am gryn amser. Wrth benderfynu ailagor ysgolion i fwy o ddysgwyr, rwy'n defnyddio'r hyblygrwydd sydd ar gael i ni er mwyn sicrhau y caiff y mwyafrif helaeth o blant rywfaint o amser cyswllt hanfodol â'u hysgolion a'u lleoliadau ar ddiwedd tymor yr haf hwn. Bydd yr amser hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar lesiant ein plant a'u dysgu. Mae'n cynnig man diogel i ddod i'r ysgol, dal ati i ddysgu a pharatoi ar gyfer mis Medi. Heb gael y cyfle hwn cyn mis Medi, byddai'r mwyafrif o ddysgwyr yn treulio chwe mis heb fynd i'r ysgol. Mae effaith hyn ar eu llesiant a'u dysgu yn destun pryder mawr i mi. O'r wythnos nesaf, bydd y mwyafrif helaeth o ddysgwyr yn gallu gweld eu ffrindiau mewn ffordd ddiogel, gweld eu hathrawon yn eu hysgolion arferol, ymgysylltu â'u hysgolion a threfn yr ysgol, ailgydio yn eu dysgu a chanolbwyntio ar eu llesiant.

Ar ôl rhoi cyfarwyddyd i gyfran sylweddol o'n hathrawon a staff ein hysgolion ddarparu gofal plant a chymorth yn ein hybiau dros y misoedd diwethaf, ac ailgyfeirio eu hymdrechion nawr tuag at agor pob ysgol ar gyfer diwedd tymor yr haf a'u prif swyddogaeth, ni allwn barhau â'r un lefel o gymorth gofal plant gan ein hathrawon a staff ein hysgolion. Nid wyf o'r farn y dylid disgwyl hynny ganddynt ychwaith yn ystod y cyfnod hwn, o ystyried y rôl y mae angen iddynt ei chwarae, y rôl y maent yn y sefyllfa orau i'w chwarae, sef cefnogi addysg ein plant a'n pobl ifanc. Rwyf wedi derbyn cryn dipyn o ohebiaeth gan deuluoedd sy'n teimlo eu bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi â dysgu gartref neu sy'n sôn am anghenion ychwanegol eu plant a'r cymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt. Mae llawer yn pryderu am iechyd meddwl a llesiant eu plant wrth iddynt gael eu gwahanu oddi wrth eu ffrindiau, eu hathrawon a'u trefn arferol am gyfnod estynedig.

Yn fy rôl fel Gweinidog Addysg, rhaid i mi roi blaenoriaeth i addysgu a dysgu ein plant a'n pobl ifanc. Mae ein gweithlu yn llai gan fod nifer o staff yn gwarchod neu'n wynebu problemau â'u trefniadau gofalu eu hunain ac mae heriau mewn perthynas â'r cyfyngiadau o ran gofod ffisegol. Ymhlith yr heriau sy'n gysylltiedig ag ailagor ysgolion i fwy o ddysgwyr, mae dwy her allweddol. Yn gyntaf, sut i ddiwallu'r angen hwnnw, ac yn ail, y ffaith na allwn

gynnal lefel y cymorth gofal plant a ddarparwyd dros dro yn yr hybiau lleol a sut y gall llywodraeth genedlaethol a lleol a chyflogwyr yng Nghymru helpu ein gweithwyr hanfodol i barhau â'u rôl hollbwysig.

O dydd Llun yr wythnos hon, 22 Mehefin, fel rhan o'r addasiadau a'r trefniadau i lacio'r cyfyngiadau cymdeithasol, gall lleoliadau gofal plant a chwarae ailagor. Gall lleoliadau sydd wedi parhau ar agor ofalu am fwy o blant a gall y lleoliadau hynny a fu ar gau dros dro ailagor. Bwriedir i'r ddarpariaeth hon barhau drwy weddill y tymor hwn a dros yr haf. Bydd lleoliadau gofal plant yn chwarae rhan hanfodol ac yn cynnig cymorth gwerthfawr i'r plant a'r teuluoedd sydd ei angen. Bydd yn cymryd cryn dipyn o amser i'r capasiti gynyddu a rhaid i ni gofio y bydd angen i'r lleoliadau hyn barhau i weithio o fewn y cyfyngiadau a'r paramedrau sydd ar waith, gan gadw pellter cymdeithasol, rheolaethau ychwanegol dros hylendid a rheoli heintiau a'r canllawiau llawn ar gyfer lleoliadau gofal plant yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ogystal â'n lleoliadau gofal plant a chwarae, bydd ein hysgolion hefyd yn parhau i gynnig cymorth ychwanegol i'n dysgwyr agored i niwed a phlant ein gweithwyr hanfodol. Rydym yn disgwyl i blant sy'n mynychu'r hybiau ddychwelyd i'w hysgol neu eu lleoliad eu hunain lle bynnag y bo'n bosibl. O ran y dysgwyr hynny sy'n defnyddio'r hybiau ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl i ysgolion a lleoliadau barhau i gynnig darpariaeth ychwanegol i'r dysgwyr hynny, ochr yn ochr â'r dysgu y mae ganddynt yr hawl iddo am weddill tymor yr haf. Mae hyn yn golygu y bydd cymorth gofal plant ar gael o hyd i'n gweithwyr hanfodol yn ychwanegol at yr amser cyswllt y gall ysgolion ei gynnig yn lleol ar gyfer diwedd tymor yr haf.

Mae awdurdodau lleol yn gweithio'n agos â'r ysgolion a'r lleoliadau sy'n gweithredu fel hybiau er mwyn rheoli'r cyfnod pontio. Rwy'n cydnabod na fydd hyn yn hawdd a bod gan wahanol gymunedau ledled Cymru wahanol anghenion y mae'n rhaid i ni geisio eu diwallu. Ar ôl darparu canllawiau cenedlaethol i ysgolion a lleoliadau gofal plant a thrwy gytundeb â CLlLC a'n hawdurdodau lleol ac undebau llafur ysgolion, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llwyr nad ni sy'n cyflogi staff ysgolion. Bydd awdurdodau lleol yn rhoi trefniadau gofal plant lleol ac opsiynau eraill ar waith gan mai nhw sydd yn y sefyllfa i helpu gan ystyried y capasiti o fewn pob ysgol a lleoliad, gan gynnwys o ran nifer y staff a'r gofod ffisegol, y modelau gweithredu a ddefnyddir gan yr awdurdod, y galw am leoedd ym mhob ardal ac anghenion dysgwyr. Mae ysgolion wedi bod yn cyfathrebu â chymunedau eu hysgol, gan egluro'r trefniadau y gallant eu rhoi ar waith yn lleol, sut y byddant yn gweithredu a pha ddarpariaeth sydd ar gael. Byddwn yn annog rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid i barhau i ymgysylltu â'u hysgolion a'u lleoliadau a'u hawdurdodau lleol er mwyn deall pa ddarpariaeth arall sydd o bosibl ar gael yn lleol.

Mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn parhau i fonitro lledaeniad y feirws yng Nghymru. Rhaid i ni fod yn barod i ymateb i ddatblygiadau mewn perthynas â'r feirws, gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar yr hyblygrwydd sydd ar gael neu roi mesurau ychwanegol ar waith os bydd angen cyflwyno cyfyngiadau pellach. Rydym wedi cadarnhau nad oes unrhyw ddisgwyliad y bydd ysgolion yn parhau i weithredu fel hybiau yn ystod gwyliau'r haf. Gall lleoliadau gofal plant a chwarae agor a gall awdurdodau lleol gynnig darpariaeth amgen ar gyfer y cyfnod hwn.

Rwy'n deall yn llawn bod yn rhaid i deuluoedd gydbwyso eu horiau gwaith a'u gwyliau blynyddol yn ystod gwyliau'r ysgol fel arfer. I lawer, mae clybiau brecwast neu glybiau ar ôl ysgol yn hanfodol i'r plant sy'n mynychu ac er mwyn i'r rhieni allu cyflawni eu hymrwymiadau gwaith neu ymrwymiadau eraill. Un o'r materion allweddol, yn fy marn i, yw os na fydd ysgol ran amser yn cynnig darpariaeth gofleidiol a gofal plant ddigonol, y bydd rhieni o bosibl yn defnyddio eu gwyliau blynyddol yn gyflym ac mae'n rhaid i ni barhau i annog cyflogwyr i gefnogi trefniadau gweithio hyblyg lle bynnag y gallant yn ystod y cyfnod

hwn, gan gynnwys trefniadau gweithio gartref lle y bo'n bosibl i'r rheini ag ymrwymiadau gofalu ac, wrth gwrs, i'r rheini sy'n gwarchod.

Yn Gywir,



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education